# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(223)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 1 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 15.02

Gofynnwyd cwestiynau 1–7, 9–11, 13 a 15. Tynnwyd cwestiynau 8 a 14 yn ôl. Trosglwyddwyd cwestiwn 12 i'w ateb yn ysgrifenedig. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 4 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.45

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi

Dechreuodd yr eitem am 16.00

## 6 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014

Dechreuodd yr eitem am 16.28

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5598 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2014.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 1 | 24 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.32

**NDM5597 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Uwch (Cymru)

Gosodwyd Bil Addysg Uwch (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 19 Mai 2014;

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Uwch (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 3 Hydref 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**NDM5596 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg Uwch (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**NDM5595 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 'Diogelu a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Caethwasiaeth Modern a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014 sy'n cynnig y dylid cyflwyno cosbau llymach ar gyfer masnachwyr mewn pobl ac sydd â'r nod o wella sut y caiff dioddefwyr eu gwarchod.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod gorfodi rhywun i briodi yn erbyn ei ewyllys yn awr yn drosedd.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob ysgol aelod hyfforddedig o staff sydd â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n dangos arwyddion o fod yn dystion i gam-drin domestig.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i atal anffurfio organau cenhedlu benywod.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fudd i Gymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r rôl sylfaenol y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5595 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 'Diogelu a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'.

2. Yn croesawu'r Bil Caethwasiaeth Modern a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014 sy'n cynnig y dylid cyflwyno cosbau llymach ar gyfer masnachwyr mewn pobl ac sydd â'r nod o wella sut y caiff dioddefwyr eu gwarchod.

3. Yn croesawu'r ffaith bod gorfodi rhywun i briodi yn erbyn ei ewyllys yn awr yn drosedd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob ysgol aelod hyfforddedig o staff sydd â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n dangos arwyddion o fod yn dystion i gam-drin domestig.

5. Yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i atal anffurfio organau cenhedlu benywod.

6. Yn gresynu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

7. Yn credu bod parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fudd i Gymru.

8. Yn croesawu'r rôl sylfaenol y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**10 Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.01

Daeth y cyfarfod i ben am 18.03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Hydref 2014**